Polisi Diogelu'r Cyhoedd, Gorfodi Amgylcheddol a Chydymffurfiaeth

Tachwedd 2022

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
Gwasanaeth Gorfodi Rheng-flaen
Cyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol

RHAGAIR

Fel rhan o'i swyddogaethau statudol mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn darparu gwasanaethau rheoleiddiol Diogelu'r Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu) ynghyd â Gwasanaethau Gorfodi Rheng-flaen (Tipio Anghyfreithlon, Cydymffurfiaeth Casglu Gwastraff, Sbwriel a Rheoli Cŵn) gyda golwg ar ddiogelu iechyd, diogelwch, amgylchedd ac amwynderau y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y sir ac yn ymweld â hi.

Sylweddolwn fod atal yn well nag iachau, ond lle daw angen cymryd camau gorfodi yn erbyn busnes neu aelod o'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny gan sicrhau fod ein camau gorfodi yn deg, atebol, cyson, cymesur a thryloyw.

Mae'r ddogfen hon yn nodi yr hyn y gall busnesau ac eraill a gaiff eu rheoleiddio ei ddisgwyl o Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.

Mae hwn yn wasanaeth yr ydym yn falch i fod yn gyfrifol amdano.

Cynghorydd Helen Cunningham
Dirprwy Arweinydd ac Aelod
Gweithrediaeth – Lle ac Amgylchedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Diwygiadau

Dyddiad	Tudalen	Diwygiad

CYNNWYS

		Tudalen
	Rhagair	2
	Diwygiadau	3
	Cynnwys	4
1	Cyflwyniad	5
2	Statws Cyfreithiol y Polisi Gorfodi	6
3	Cwmpas ac Ystyr 'Gorfodi'	6
4	Egwyddorion Cyffredinol	7
5	Camau Gorfodi	11
	5.1 Ystyriaethau Cyffredinol Gorfodi	11
	5.2 Ystod o Ddulliau Gorfodi	12
	5.3 Dim Gweithredu	12
	5.4 Cyngor, Arweiniad a Chymorth ar Gydymffurfiaeth	13
	5.5 Hysbysiadau Cosb Sefydlog, Hysbysiadau Tâl Cosb a Hysbysiadau Cosb am Anrhefn	13
	5.6 Ymrwymiadau Gwirfoddol	13
	5.7 Hysbysiadau Statudol, Gorchmynion a Gwaith mewn Diffyg	14
	5.8 Trafodion Cadw, Atafaelu a Fforffedu	14
	5.9 Gwaharddebau a Chosbau Sifil eraill	14
	5.10 Addasu, Atal neu Ddiddymu Trwyddedau	15
	5.11 Rhybudd Syml	15
	5.12 Erlyniad	15
	5.13 Ceisiadau am Enillion Troseddau	15
	5.14 Cyfrifoldebau Gorfodi fel Awdurdod Bwyd	16
6	Cyswllt gydag Asiantaethau eraill	16
7	Hysbysu Pobl a Busnesau beth sy'n digwydd	17
8	Adolygu a Chyhoeddi'r Polisi Gorfodi	17
	Diwedd	

1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn darparu gwasanaethau rheoleiddiol (Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu) ynghyd â Gwasanaethau Gorfodi Rheng Flaen (Tipio Anghyfreithlon, Cydymffurfiaeth â Chasglu Gwastraff, Sbwriel a Mesurau Rheoli Cŵn) gyda golwg ar warchod iechyd, diogelwch, amgylchedd ac amwynderau y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y sir ac yn ymweld â hi.

1.2 Datblygwyd y polisi i sicrhau fod Gwasanaethau Rheoleiddiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cydymffurfio gyda'r fframwaith deddfwriaethol y gweithredwn ynddo. Mae hefyd yn esbonio ein harferion gorfodi fel y gall preswylwyr a busnesau ddeall pa gamau gweithredu gorfodi a gymerwn a sut y penderfynwn pa gamau gweithredu gorfodi sy'n addas ym mhob achos.

1.3 Cafodd y polisi ei baratoi gan roi sylw i ystod o brif ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol, yn cynnwys:

- Deddf Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol 2008 .
- Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006
- Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddiol 2013
- Canllawiau i'r Ddeddf Gorfodi a Chostau Rheoleiddiol
- Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (cyhoeddwyd dan Adran 40(1) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Phennod 6 Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)

Mae rhestr lawn o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau dan y Ddeddf Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol ar gael yma.

1.4 Yn ogystal â'r uchod, caiff ein gweithgareddau gorfodi eu cynnal gan gydymffurfio gyda deddfwriaeth penodol i droseddau a gyda:

- Deddf Hawliau Dynol 1988;
- Deddf Diogelu Rhyddid 2012 a'r Cod Ymarfer ar Bwerau Mynediad
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a chanllawiau Cod B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2001

- Gorchymyn Cydlynu Gorfodi Rheoleiddiol (Gweithredu Gorfodi) 2009
- Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron
- Cod Rheoleiddwyr
- Deddf Diogelu Data 1998

1.5 Nid yw'r holl ddarpariaethau a ddaw o fewn y polisi hwn yn rhwymo'n gyfreithiol ar bob agwedd o'n gwaith gorfodi. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i ymarfer gorfodi da yn llywio holl benderfyniadau a wneir ynghylch gorfodi gan ein swyddogion gorfodi.

2 STATWS CYFREITHIOL Y POLISI GORFODI HWN

2.1 Cafodd y Polisi Gorfodi a Chydymffurfiaeth hwn ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth gan Aelodau fel sy'n briodol ac mae manylion y broses cymeradwyo gan Aelodau ar gael ar gais.

2.2 Nid yw'r ddogfen hon yn disodli deddfwriaeth neu ganllawiau statudol.

2.3 Wrth wneud penderfyniadau ynghylch gorfodi, bydd pob Swyddog Gorfodi yn cydymffurfio gyda'r Polisi hwn. Bydd ymadawiadau o'r Polisi yn eithriadol, a bydd angen medru eu cyfiawnhau ac iddynt gael eu cymeradwyo gan y Rheolwr Tîm priodol, Pennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr neu Bwyllgor Aelodau (fel sydd angen), cyn eu gweithredu.

2.4 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn awdurdod cyhoeddus ar gyfer dibenion Deddf Hawliau Dynol 1998. Byddwn felly yn gweithredu egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar gyfer Diogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol. Yn neilltuol, rhoddir sylw dyladwy i'r hawl i brawf teg a'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

2.5 Mewn amgylchiadau eithriadol gallwn benderfynu nad yw'r darpariaethau yn y Polisi hwn a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau y mae'n seiliedig arnynt yn berthnasol neu bod darpariaeth arall yn drech arnynt. Byddwn yn sicrhau bod rhesymau cywir, yn seiliedig ar dystiolaeth sylweddol dros unrhyw benderfyniad i ymadael o'r Polisi hwn ac y caiff hynny ei ddogfennu.

3 CWMPAS AC YSTYR 'GORFODI'

3.1 Mae'r Polisi hwn yn weithredol ar gyfer pob deddfwriaeth a weithredir gan wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, Trwyddedu a Gorfodi Rheng Flaen yn ogystal ag unrhyw staff dros dro a/neu asiantaeth a/neu

sefydliad sy'n cyflenwi camau gorfodi ar ran y gwasanaethau y mae'r Polisi hwn yn cyfeirio atynt.

3.2 Bydd y gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth i'r diffiniad o 'gamau gorfodi' a ddiffinnir dan Ddeddf Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol 2008.

3.3 Mae rhestr lawn o'r camau gorfodi a ddaw o fewn y Ddeddf Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol yng Ngorchymyn Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol 2009. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn berthnasol i unrhyw gamau gorfodi eraill a gymerir, tebyg i lythyr anffurfiol, lle dywedir y gellir cymryd y camau gorfodi a restrir.

4. EGWYDDORION CYFFREDINOL

4.1 Bydd ein nodau gorfodi fel y cânt eu rhestru yn y Cod Rheoleiddwyr, a bydd eu ffocws ar newid ymddygiad y troseddwr, newid agweddau mewn cymdeithas i ddod yn llai goddefgar i droseddau, dileu unrhyw enilliad neu fudd ariannol o ddiffyg cydymffurfiaeth ac atal unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

4.2 Bydd ein camau gorfodi yn anelu i fod yn ymatebol ac ystyried beth sy'n addas ar gyfer y troseddwr a'r mater rheoleiddiol neilltuol, a bod yn gymesur i natur y drosedd a'r niwed a achoswyd.

4.3 Gall fod na fedrwn ddelio gyda cheisiadau/cwynion/honiadau di-enw am wasanaeth ond mae hyn yn dibynnu ar natur y consyrn a ffynhonnell y broblem. Ym mhob achos, gellir sicrhau cleientiaid sy'n rhoi eu henw, cyfeiriad neu unrhyw fanylion eraill y caiff yr wybodaeth hon ei chadw yn hollol gyfrinachol i'r graddau a ganiateir gan ddeddfwriaeth. Lle'n briodol, bydd angen trin gwybodaeth a dderbynnir fel "cudd-wybodaeth" a gaiff ei phrosesu yn unol â Model Gweithredu Cudd-wybodaeth a'i graddio yn unol â hynny. Caiff yr wybodaeth hon ei thrin yn gyfrinachol a'i rhannu gydag asiantaethau eraill fel sy'n briodol.

4.4 Lle ystyriwn fod camau gorfodi yn briodol, caiff pob achos ei ystyried ar ei haeddiant. Fodd bynnag, mae egwyddorion cyffredinol ar gyfer y ffordd y mae'n rhaid ystyried pob achos. Caiff y rhain eu nodi yn y Polisi hwn ac yn y Cod Rheoleiddwyr.

4.5 Bydd pob penderfyniad ar gamau gorfodi yn deg, annibynnol a gwrthrychol. Ni fydd materion tebyg i ethnigrwydd neu darddiad cenedlaethol, rhywedd, credoau crefyddol, barn wleidyddol na chyfeiriadedd rhywiol y sawl a amheuir, y dioddefwr, tyst neu droseddwr yn effeithio arnynt. Ni fydd pwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell yn effeithio ar benderfyniadau o'r fath.

4.6 Ein prif swyddogaeth yw gwarchod y cyhoedd, busnesau dilys, yr amgylchedd a grwpiau tebyg i ddefnyddwyr a gweithwyr. Gwnawn hyn drwy sicrhau

cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth gorfodi. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i gymryd camau gorfodi ar ôl sicrhau cydymffurfiaeth os yw er budd y cyhoedd i wneud hynny, ac yn arbennig os mai dim ond fel canlyniad i'n hymyriad y sicrhawyd cydymffurfiaeth.

4.7 Wrth ystyried camau gorfodi, byddwn yn rhoi ystyriaeth i farn unrhyw ddioddefwyr neu unigolion neu gymunedau perthnasol i sefydlu natur a maint unrhyw niwed neu golled, a'i arwyddocâd, wrth wneud y penderfyniad i gymryd camau gorfodi ffurfiol.

4.8 Pan fo busnes mewn Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol cofrestredig dan Deddf Gorfodi a Chostau Rheoleiddiol byddwn, lle mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny, yn hysbysu'r Awdurdod Sylfaenol am unrhyw gamau gorfodi y cynigiwn eu cymryd (os na chymerir camau gorfodi mewn argyfwng ac os felly bydd hysbysiad yn digwydd wedyn). Gallwn hefyd dan y Ddeddf honno gyfeirio'r mater i Cyflenwi Rheoleiddiol, sy'n rhan o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, os yn briodol. Mae gan y Awdurdod Sylfaenol yr hawl i wrthwynebu camau gorfodi a gynigir, ac os felly gallant hwy neu ni atgyfeirio'r mater at Cyflenwi Rheoleiddiol.

4.9 Gwrthdaro Buddiant: Gall gwrthdaro buddiant posibl ddigwydd lle mai'r Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yw'r awdurdod gorfodi perthnasol yng nghyswllt safleoedd lle bod gan naill ai Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent neu ei swyddogion hefyd fuddiant fel perchennog neu reolwr. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau fod trefniadau yn eu lle i alluogi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd i ymgymryd â'i rôl heb ofn na ffafr a heb unrhyw wrthdaro, gwirioneddol neu dybiedig. Caiff unrhyw wrthdaro a ddynodir eu penderfynu ar sail unigol gan roi ystyriaeth i natur ymgyfraniad yr awdurdod lleol yn y busnes, y deiliaid dyletswydd sy'n gyfrifol am y busnes a'r person sydd fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol pe byddai trosedd yn digwydd.

4.10 Caiff achosion o dorri deddfwriaeth a ganfyddir yng nghyswllt busnesau neu gontractwyr sy'n gweithredu mewn safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt eu trin yn yr un ffordd ag unrhyw berchennog busnes arall, a bydd yr amserlenni ar gyfer cyflawni gwaith o'r fath yr un peth ag ar gyfer unrhyw ddarparydd busnes arall.

4.11 Bydd y cyngor a roddir i neu yng nghyswllt safle y mae'r cyngor yn berchen arno yr un fath ag ar gyfer unrhyw berchennog busnes arall, a ni chaniateir iddo wrthdaro gyda rôl gorfodi yr awdurdod.

4.12 Ble mae gan Diogelu'r Cyhoedd neu Wasanaethau Rheng Flaen rôl reoleididol ond na allant gymryd camau gweithredu ffurfiol yng nghyswllt safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt, caiff achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r gyfraith eu hadrodd i'r Cyfarwyddwr/Prif Swyddog priodol. Yn ychwanegol,

hysbysir y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro am achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n parhau heb eu datrys ar ôl amserlen briodol, ac am unrhyw faterion a fyddai wedi arwain at gamau gorfodi ffurfiol a/neu erlyniad mewn safle nad oedd yr awdurdod lleol yn berchen arno.

4.13 Mewn rhai achosion, mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i sefydlu trefniadau ffurfiol gydag awdurdod arall ar gyfer gorfodi deddfwriaeth mewn safle y mae'r awdurdod lleol yn berchen arno neu yn ei reoli e.e. Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Lloegr a Chymru) 2012. Lle mae angen, gweithredir trefniadau ffurfiol gydag awdurdod penodol a chaiff unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a ddynodir yn eu hardal/safle eu trin yn unol ag egwyddorion y polisi gorfodi hwn.

4.14 Caiff camau gorfodi eu cynnal gan swyddogion gydag awdurdod priodol a bydd awdurdodiad yn seiliedig ar gymwysterau, gwybodaeth a phrofiad. Aiff yr awdurdodiad ar gyfer pob swyddog drwy'r weithdrefn awdurdodi berthnasol a chaiff ei gofnodi.

4.15 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y penderfyniad i gymryd camau gorfodi yn aros gyda'r swyddog a awdurdodwyd. Gall penderfyniadau heblaw cyngor anffurfiol a hysbysiadau cosb sefydlog fod yn agored i graffu ychwanegol fel sy'n briodol. Yn arbennig, caiff unrhyw benderfyniad i erlyn ei gymryd gan y Pennaeth Gwasanaeth neu eraill gydag awdurdod i wneud hynny, yn unol gyda chynllun dirprwyad yr awdurdod lleol, mewn trafodaeth gyda Gwasanaethau Cyfreithiol.

4.16 Defnyddir hyfforddiant i sicrhau fod swyddogion a awdurdodwyd yn sicrhau ac yn cynnal y lefel briodol o gymhwysedd a phroffesiynoldeb, a chaiff yr hyfforddiant ei gofnodi fel sydd angen.

4.17 Ble defnyddiwn gontractwyr neu asiantaethau allanol, caiff eu cymwysterau a'u profiad eu harchwilio i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran cymhwysedd ar gyfer unrhyw waith a wneir ar ran yr awdurdod.

4.18 Bydd yr holl benderfyniadau gorfodi gan swyddogion gorfodi yn derbyn trosolwg gan reolwyr llinell, fel sy'n briodol, ac mae gweithdrefnau monitro yn eu lle pan fo gofyniad cyfreithiol am hynny.

4.19 Caiff unrhyw weithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau cysondeb ac unffurfedd camau gorfodi gan swyddogion a gyflogir gan yr awdurdod hefyd eu gweithredu ar gyfer staff dros dro a staff contract. Caiff unrhyw staff o'r fath eu monitro i sicrhau fod eu gwaith yn cydymffurfio gyda gofynion y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau eraill sydd ar waith.

4.20 Byddwn yn rhoi ystyriaeth i gyfrinachedd unrhyw wybodaeth a geir fel rhan o gamau gorfodi a'r angen am gyfrinachedd yng nghyswllt unrhyw gamau gorfodi

a gymerir. Yn yr un modd, mae'r gwasanaethau yn cydnabod darpariaethau ac egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yng nghyswllt hawliau unigolion i gael mynediad i ddata neilltuol.

4.21 Sylweddolwn fod rhoi cyngor yn rhan bwysig o'n gwaith ond mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau nad yw rhoi cyngor i fusnesau a phreswylwyr lleol yn gwrthdaro gydag unrhyw swyddogaeth gorfodi statudol.

4.22 Ni fyddwn fel arfer yn cynnig gwasanaethau ymgynghori, heblaw drwy berthynas Awdurdod Sylfaenol y gallwn ymrwymo iddi. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod gwaith ymgynghori yn golygu rhoi cymorth a chyngor manwl neu weithredu ar ran cleient, p'un ai am fudd ariannol ai peidio, ond ni fyddai'n cynnwys rhoi cyngor cyffredinol fel rhan o archwiliad, cais ac yn y blaen.

4.23 Pe byddem yn penderfynu cynnig gwasanaethau ymgynghoriaeth (os oes cyllid ar gael), ni chaiff y rhain eu marchnata na'u hysbysebu fel rhan o archwiliad neu weithredu gorfodaeth arall heb gyfeirio at y ffaith bod darparwyr gwasanaeth eraill ar gael.

4.24 Lle mae'r gyfraith yn caniatáu hynny, gallwn ddewis codi tâl am gamau gorfodi. Mewn erlyniadau, byddwn yn cyflwyno cais am gostau ar sail adferiad llawn os nad oes amgylchiadau lliniaru sy'n gwneud hyn yn amhriodol.

4.25 Lle mae gan unigolyn neu fusnes broblem gyda neu'n dymuno cwyno am gamau gorfodi yn eu herbyn dan y Polisi hwn, dylent roi ystyriaeth i unrhyw apêl neu broses farnwrol arall sydd yn ei lle a dilyn hyn lle'n briodol. Lle nad oes apêl neu broses farnwrol arall, gall y person y cymerwyd y camau gweithredu yn eu herbyn:

a) Siarad gyda'r Swyddog Gorfodi sy'n delio gyda'r achos, lle'n briodol, fel y gellir trafod unrhyw gamau gorfodi a gymerir a datrys unrhyw faterion drwy gytundeb lle bynnag sydd modd.

b) Siarad gyda rheolwr llinell y swyddog dan sylw lle na fedrir dod i gytundeb, neu

c) Gwneud cwyn i'r rheolwr gwasanaeth fel sy'n dilyn:

Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd

Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy, NP23 6DN

d) Defnyddio'r weithdrefn gwynion ffurfiol sydd ar gael ddrwy

- www.blaenau-gwent.gov.uk

Caiff yr holl ymholiadau a chwynion eu trin yn unol â chanllawiau corfforaethol yr Awdurdod.

5. CAMAU GORFODI

5.1 Ystyriaethau cyffredinol gorfodi

5.1.1 Y dybiaeth gyffredinol yw y byddwn yn cymryd dull gweithredu mewn camau at orfodi i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gyfraith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal cymryd camau tebyg i erlyn neu gyflwyno hysbysiad cosb sefydlog/hysbysiad tâl fel cam gorfodi cyntaf lle mae er budd y cyhoedd i wneud hynny.

5.1.2 Wrth asesu pa gamau gorfodi sydd eu hangen ac yn gymesur rhoddir ystyriaeth, ymysg pethau eraill, i:

a) Pa mor ddifrifol yw'r methiant i gydymffurfio.

b) Perfformiad unrhyw fusnes a/neu unigolion cysylltiedig yn y gorffennol ac ar hyn o bryd.

c) Unrhyw ymgais i rwystro ar ran y troseddwr.

d) Y risgiau a gaiff eu rheoli.

e) Canllawiau statudol.

f) Codau ymarfer.

g) Unrhyw gyngor cyfreithiol.

h) Unrhyw flaenoriaethau a osodir gan y Llywodraeth neu a gaiff eu mabwysiadu gan bob awdurdod lleol

i) P'un ai yw'r diffynnydd dan 18 oed, ni fyddwn yn gweithredu yn erbyn pobl dan 18 os nad oes pwerau penodol o fewn y ddeddfwriaeth briodol a/neu ein bod wedi mabwysiadu pwerau o'r fath

j) Bodolaeth unrhyw gytundeb Awdurdod Sylfaenol y gellir sicrhau cydymffurfiaeth drwyddo.

5.1.3 Bydd swyddogion hefyd yn sicrhau fod unrhyw gamau gorfodi a gynigir yn rhesymol, cymesur, seiliedig ar risg ac yn gydnaws gydag arfer da a chanllawiau. Wrth ddewis y camau mwyaf priodol, bydd y swyddog arweiniol yn defnyddio dull gwneud penderfyniadau gorfodi priodol yn ymwneud â'r gweithgaredd rheoleiddiol (e.e. Model Rheoli Gorfodi Iechyd a Diogelwch neu atgyfeirio at Bwyllgorau Trwyddedu). Lle nad oes modelau penodol o'r fath yn bodoli yna, cyn cymryd unrhyw gamau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a gweithdrefnau mewnol o'r fath a fernir yn briodol ym mhob achos.

5.1.4 Lle'r ydym angen i gamau gael eu cymryd gan y sawl sy'n derbyn i unioni neu atal trosedd, byddwn yn:

a) Gwahaniaethu'n glir rhwng troseddau ac unrhyw argymhellion a chyngor a roddir

b) Esbonio sut y dylid unioni unrhyw drosedd, lle'n briodol (efallai mai dim ond i atal gweithgaredd y bydd hyn

c) Rhoi amserlenni rhesymol ar gyfer unioni unrhyw drosedd (gall hyn fod ar unwaith mewn rhai amgylchiadau)

d) Rhoi manylion cyswllt rhag ofn bod angen gwybodaeth neu gyngor ar y camau gorfodi

e) Rhoi gwybodaeth ysgrifenedig ar unrhyw brosesau apêl lle'n berthnasol

5.1.5 Caiff unrhyw gamau a gymerwn yng nghyswllt unrhyw drosedd eu cofnodi a gellir eu defnyddio yn ddiweddarach i lywio penderfyniadau gorfodi diweddarach.

5.2 Ystod o Ddulliau Gorfodi

Wrth benderfynu ar y llwybr gweithredu mwyaf addas bydd swyddogion yn rhoi ystyriaeth i'r ystod llawn o opsiynau gorfodi sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, gall hyn gynnwys:

i. Dim Gweithredu
ii. Cyngor, Canllawiau a Chymorth ar Gydymffurfiaeth
iii. Hysbysiadau Cosb Sefydlog, Hysbysiadau Tâl Cost a Hysbysiadau Cost am Anrhefn
iv. Ymrwymiadau Gwirfoddol
v. Hysbysiadau Statudol, Gorchmynion, Gweithdrefnau Atal arall a Gwaith mewn Diffyg
vi. Trafodion Cadw, Atafaelu a Fforffedu
vii. Addasu, Atal neu Ddiddymu Trwyddedau, system Pwyntiau Cosb a rhybuddion eraill
viii. Rhybudd Syml
ix. Erlyn
x. Ceisiadau am Enillion Troseddau

5.3 Dim Gweithredu

5.3.1 Mewn rhai amgylchiadau, efallai nad yw achosion o dramgwyddo y gyfraith yn cyfiawnhau unrhyw weithredu, er enghraifft lle mae

- Gorfodi yn amhriodol yn yr amgylchiadau, er enghraifft lle na fedrai'r diffynnydd ddeall a/neu y byddai'n effeithio'n ddifrifol ar eu hiechyd neu lesiant.

- Mae'r drosedd yn un fân iawn a byddai cost cydymffurfio neu orfodi yn sylweddol fwy nag effaith niweidiol y tramgwydd.

Byddai amgylchiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn anarferol iawn ac, yn y rhan fwyaf achosion lle canfuwyd y torrwyd y gyfraith, bernir fod rhyw fath o weithredu gorfodi yn briodol.

5.4 Cyngor, Arweiniad a Chymorth ar Gydymffurfiaeth

5.4.1 Cyngor a chymorth anffurfiol fydd ymateb cyntaf y Gwasanaeth mewn llawer o achosion torri deddfwriaeth a ddynodir. Gellir rhoi cyngor yn llafar neu ar wedd llythyr rhybudd i gynorthwyo unigolion a busnesau i unioni toriadau mor gyflym ac mor effeithol ag sydd modd ac osgoi'r angen am fwy o gamau gorfodi. Bydd llythyr rhybudd yn nodi'r hyn y dylid ei wneud i unioni'r toriad ac i'w atal rhag ail-ddigwydd. Os dynodir toriad tebyg yn y dyfodol, bydd y llythyr hwn yn darbwyllo wrth ystyried y camau gweithredu mwyaf addas i'w cymryd ar yr achlysur hwnnw. Ni ellir sôn am lythyr o'r fath yn y llys fel euogfarn flaenorol ond gellir ei gyflwyno fel tystiolaeth. Lle rhoddir cyngor, byddwn yn dynodi'n glir unrhyw dramgwyddo ar y gyfraith a rhoi cyngor ar sut i unioni pethau.

5.4.2 Lle mae perthynas awdurdod sylfaenol, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ofynion yr Awdurdod Sylfaenol parthed ein rôl ymgynghori ac yn cynghori'r awdurdod sylfaenol lle mae unrhyw gyngor yn berthnasol tu hwnt i lefel leol.

5.5 Hysbysiadau Cosb Sefydlog, Hysbysiadau Tal Cosb a Hysbysiadau Cosb am Anrhefn

5.5.1 Lle mae deddfwriaeth yn caniatáu i drosedd gael ei thrin drwy Hysbysiad Cosb Sefydlog, Hysbysiad Tâl Cosb neu Hysbysiad Cosb am Anrhefn, gallwn ddewis cyhoeddi Hysbysiad ym mhob un o'r achosion am drosedd gyntaf a/neu fân. Nid oes gofyniad i roi rhybudd cyn cymryd y cam hwn gan y cyflwynwyd y remedïau hyn gan y Llywodraeth fel dull o rybuddio sy'n galluogi osgoi erlyniad.

5.5.1 Mae Hysbysiadau Cosb Sefydlog a Hysbysiadau Cost am Anrhefn yn gynnig i ollwng rhwymedigaeth am drosedd yn lle wynebu erlyniad, ac felly bydd peidio talu fel arfer yn arwain at erlyniad os nad oes tystiolaeth i ddangos amgylchiadau lliniarol. Caiff Hysbysiadau Cosb Sefydlog eu rhoi am droseddau sifil gydag adfer dyled yn dilyn os na thelir.

5.6 Ymrwymiadau Gwirfoddol

5.6.1 Gall yr Awdurdod dderbyn ymrwymiad gwirfoddol y caiff toriadau eu hunioni a/neu yr atelir ail-ddigwydd. Caiff unrhyw fethiant i anrhydeddu ymrwymiad gwirfoddol eu cymryd yn ddifrifol iawn a bydd yn arwain at gamau gweithredu priodol.

5.7 Hysbysiadau Statudol, Gorchmynion, Gweithdrefnau Gwahardd Arall a Gwaith mewn Diffyg

5.7.1 Mae peth deddfwriaeth yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau statudol gael eu rhoi neu i Orchmynion gael eu gwneud yn y llys yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr gymryd camau penodol neu atal rhai gweithgareddau. Gall y math hwn o am gorfodi olygu fod angen i weithgareddau ddod i ben ar unwaith lle mae'r amgylchiadau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, difrod i'r amgylchedd neu niwsans yn mynnu hynny. Mewn amgylchiadau eraill, bydd yr amser a ganiateir yn rhesymol, gan roi ystyriaeth i ba mor ddifrifol yw'r tramgwydd, goblygiadau diffyg cydymffurfiaeth a'r cyfnod apêl ar gyfer yr hysbysiad hwnnw. Gallwn godi tâl am gyflwyno hysbysiad statudol yng nghyswllt rhai deddfau

5.7.2 Mae rhai mathau o hysbysiad yn caniatáu i weithiau gael ei wneud mewn diffyg, ac os na chydymffurfir gyda hysbysiad [toriad o'r hysbysiad], gallwn wneud y gwaith angenrheidiol i fodloni gofynion yr hysbysiad ein hunain. Lle mae'r gyfraith yn caniatáu hynny, gallwn godi tâl ar yr unigolyn/busnes a gafodd yr hysbysiad am unrhyw gost a gawsom wrth wneud y gwaith. Lle'n bosibl, gall costau hefyd gael eu gosod fel pridiannau tir lleol.

5.8 Trafodion Cadw, Atafaelu a Fforffedu

5.8.1 Mae deddfwriaeth yn galluogi Swyddogion Gorfodaeth gydag awdurdod i gadw nwyddau nes cynhelir ymchwiliadau pellach a/neu atafaelu nwyddau, offer neu ddogfennau – er enghraifft nwyddau heb fod yn saff neu lle gall fod eu hangen fel tystiolaeth ar gyfer trafodion llys posibl yn y dyfodol. Pan fyddwn yn atafaelu nwyddau, byddwn yn rhoi derbynneb briodol i'r person yr eir â'r nwyddau oddi arnynt.

5.8.2 Gellir defnyddio fforffedu mewn cysylltiad gydag atafaelu a/neu erlyniad lle mae angen gwaredu â nwyddau i'w hatal rhag ail-fynd i'r farchnad neu gael eu defnyddio i achosi problem bellach.

5.9 Gwaharddebau a Chosbau Sifil eraill

5.9.1 Mewn rhai amgylchiadau gellir defnyddio gwaharddebau i ddelio gyda throseddwyr mynych, amgylchiadau peryglus; neu niwed ddefnyddwyr / yr

amgylchedd / iechyd cyhoeddus, er enghraifft. Hefyd, gall y Tîm Diogelwch Cymunedol ddewis y llwybr hwn i drin ymddygiad gwrthgymdeithasol.

5.9.2 Dan Ddeddf Menter 2002, caiff gweithredu ei ystyried lle bu toriadau cyson neu os oes niwed sylweddol torfol i ddefnyddwyr, a gall hyn gynnwys ymgymeriadau anffurfiol hyd at orchmynion llys a thrafodion sarhau llys.

5.10 Addasu, Atal neu Ddiddymu Trwyddedau

5.10.1 Mae ystod o gamau ar gael yng nghyswllt trwyddedau, yn dibynnu dan ba ddeddfwriaeth y rhoddwyd y drwydded ac unrhyw bolisïau penodol sy'n darparu gwahanol ddulliau gweithredu a gosod amodau trwyddedu y mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded eu hystyried. Er enghraifft, mae'r "Polisi ynghylch Trwyddedau Cerbydau Hacni a Hur Preifat" yn rhoi system pwyntiau cosb yng nghyswllt rhai tramgwyddau.

5.10.2 Mae'r camau y gellid eu cymryd yn cynnwys atal neu ddiddymu trwydded, addasu amodau'r drwydded, hepgor gweithgaredd y mae angen trwydded amdano o gwmpas y drwydded, symud Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu gyhoeddi hysbysiad statudol lle caniateir hyn dan y ddeddfwriaeth trwyddedu benodol.

5.10.3 Lle mae angen yn y gyfraith neu dan Bolisi Trwyddedu yr awdurdod, aiff y camau uchod drwy'r Pwyllgor Trwyddedu priodol neu'r Llysoedd.

5.11 Rhybudd Syml

5.11.1 Lle'n briodol, a lle byddai cyfiawnhad dros erlyniad fel arall, gellir rhoi Rhybudd Syml gyda chaniatâd y troseddwr.

5.11.2 Wrth benderfynu os yw Rhybudd Syml yn briodol, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder 2013. Caiff canllawiau ar weithredu'r prawf budd cyhoeddus wrth benderfynu os yw rhybudd syml yn briodol ei nodi yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, sydd ar gael i'w weld ar wefan CPS.

5.11.3 Caiff gwrthodiad gan droseddwr i gael rhybudd yn ystyriaeth sylweddol wrth benderfynu os y dylai'r troseddwr wedyn gael ei erlyn am y drosedd honno.

5.12 Erlyn

5.12.1 Wrth benderfynu os yw erlyniad yn briodol, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, ac yn neilltuol

(I) Wrth benderfynu os yw'r achos yn cyflawni'r prawf tystiolaeth, ac

(ii) Wrth benderfynu os yw erlyniad er y budd cyhoeddus

5.12.2 Lle'n briodol, ac yn neilltuol yn achos erlyniadau yn dilyn peidio talu Hysbysiad Cosb Sefydlog, byddwn yn ystyried defnyddio Hysbysiad Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol lle mae'r opsiwn hwn ar gael.

5.12.3 Gallwn ddewis codi ymwybyddiaeth drwy roi cyhoeddusrwydd i unrhyw erlyniad yr ydym wedi ei gymryd, yn arbennig os oes mater sy'n drech pam y byddai hyn yn amhriodol. Mae hyn oherwydd yr ystyrir fod erlyniad yn ataliad pwysig ar gyfer busnesau eraill nad ydynt yn cydymffurfio.

5.13 Ceisiadau Enillion Troseddu

5.13.1 Gallwn, naill ai drwy ein swyddogion ein hunain neu mewn cydweithrediad gydag ymchwilwyr annibynnol timau rhanbarthol neu genedlaethol eraill tebyg i'r Tîm Ymchwiliadau Rhanbarthol neu dimau Twyll Bwyd neu'r Heddlu, wneud ceisiadau dan Ddeddf Enillion Troseddu 2002 i gyfyngu a/neu gymryd ymaith asedau troseddwr.

5.13.2 Diben unrhyw drafodion o'r fath yw adennill y budd ariannol a gafodd y troseddwr o'i ymddygiad troseddol. Caiff trafodion eu cynnal yn ôl safon tystiolaeth sifil..

5.14 Cyfrifoldebau Gorfodaeth fel Awdurdod Bwyd

5.14.1 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel Awdurdod Bwyd yn sicrhau fod unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan ei swyddogion awdurdodedig yn unol â'r gofynion a nodir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a hefyd yn benodol gyda Phennod 6 Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

5.15 Er mwyn sicrhau cyflawni'r uchod, gan roi ystyriaeth i egwyddorion y polisi gorfodaeth hwn, bydd gweithdrefnau penodol ar gael ar gyfer defnyddio pob un o'r opsiynau gorfodaeth a ddynodwyd sydd ar gael i swyddogion awdurdodedig. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol i gynnal ail ymweliadau ar gyfer dibenion penderfynu ar gydymffurfiaeth lle dynodwyd materion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

6. CYSWLLT GYDAG ASIANTAETHAU ERAILL

6.1 Yn ogystal â'r dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol, byddwn, lle'n briodol, yn cydweithredu ac yn cydlynu gydag unrhyw gorff rheoleiddiol perthnasol a/neu asiantaeth orfodi i gynyddu effeithlonrwydd unrhyw orfodi.

6.2 Lle mae mater gorfodi yn effeithio ar ardal ddaearyddol eang neu'n golygu gorfodi gan un neu fwy o awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill, caiff pob

awdurdod a sefydliad perthnasol eu hysbysu am y mater cyn gynted ag sydd modd a chaiff camau gweithredu eu cydlynu gyda hwy fel sy'n briodol.

6.3 Byddwn yn rhannu cudd-wybodaeth yn ymwneud â materion unigol a materion rheoleiddiol ehangach gyda chyrff rheoliadol ac asiantaethau gorfodi eraill, lle mae gan yr wybodaeth gysylltiedig effaith uniongyrchol ar eu swyddogaethau a chyfrifoldebau gorfodi, ac yn unol gydag unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data.

7. HYSBYSU POBL A BUSNESAU BETH SY'N DIGWYDD

7.1 Rydym yn ymdrechu i hysbysu troseddwyr honedig a thystion am gynnydd ymchwiliadau, fel sy'n briodol. Derbynnir efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos, er enghraifft os byddai'n llesteirio ymchwiliad neu'n achosi risg ddiogelwch i swyddogion sy'n ymchwilio, tystion neu'r cyhoedd yn gyffredinol.

8. ADOLYGU A CHYHOEDDI'R POLISI GORFODI

8.1 Caiff y Polisi hwn ei adolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd, neu pryd bynnag y cyflwynir newidiadau deddfwriaethol i'r ffordd y gorfodwn.

8.2 Mae'r Polisi hwn ar gael mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys

a. ar wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk

b. drwy anfon e-bost atom yn environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk

Gellir darparu'r Polisi ar dâp, mewn Braille neu brint bras ar gais.

8.3 Croesewir sylwadau ar y Polisi Gorfodi hwn, a gellir eu gwneud drwy anfon e-bost atom i environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk

DIWEDD